# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn

Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2025

Mae’r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Llanfihangel y Creuddyn yn ysgol ofalgar a chynhwysol lle mae pob disgybl yn teimlo'n hapus a diogel. O dan arweinyddiaeth gadarn y pennaeth, mae ethos clir o gydweithio a diwylliant lle mae 'plant hapus yn ddysgwyr hapus'. Mae'r berthynas rhwng staff a disgyblion yn gryf ac yn seiliedig ar barch a gofal, sy'n cyfrannu'n dda at eu lles a'u hagweddau cadarnhaol tuag at ddysgu. Mae'r gofal personol a'r gefnogaeth i bob disgybl yn effeithiol.

Mae athrawon yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sydd wedi'i wreiddio yn y gymuned leol. Mae'r profiadau dysgu yn helpu disgyblion i ddatblygu ymdeimlad cryf o hunaniaeth Gymreig ac ymwybyddiaeth o'r byd ehangach. Maent yn dysgu i werthfawrogi gwahaniaethau, dangos caredigrwydd ac ystyried safbwyntiau eraill.

Mae athrawon yn defnyddio ystod o ddulliau i ennyn a chynnal diddordeb disgyblion ac i'w hannog i feddwl yn fwy annibynnol. Mae hyn yn dechrau datblygu, er nad yw'r ddarpariaeth yn rhoi digon o gyfleoedd i feithrin medrau dysgu annibynnol disgyblion yn ddigon cyson. Mae athrawon yn defnyddio dulliau holi effeithiol i ddyfnhau dealltwriaeth a gwybodaeth y disgyblion ac yn darparu adborth clir ac amserol sy'n eu helpu i ddeall sut i wella eu gwaith. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn.

Mae staff yn rhoi pwyslais arbennig ar y Gymraeg, ac mae disgyblion yn datblygu medrau darllen yn llwyddiannus, ac yn sgwrsio â'u cyfoedion yn hyderus yn Gymraeg. Maent yn defnyddio eu medrau llythrennedd a rhifedd yn fedrus ar draws y meysydd dysgu, ac yn dangos creadigrwydd wrth ysgrifennu ac wrth ddatrys problemau mathemategol. Mae cyfleoedd digidol, celfyddydol a pherfformio yn cefnogi datblygiad eu medrau ehangach yn llwyddiannus.

Mae arweinwyr yn meithrin perthynas gadarn â rhieni â'r gymuned leol, gan sicrhau bod y rhieni'n rhan o fywyd yr ysgol ac yn ymwybodol o gynnydd eu plant. Mae'r llywodraethwyr yn ymroddedig ac yn deall cryfderau a meysydd datblygu'r ysgol yn dda. Maent, gyda'r pennaeth a'r staff, yn canolbwyntio ar wella'r profiadau dysgu a'r amgylchedd ar gyfer pob disgybl yn effeithiol.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Cryfhau cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 19/12/2025